# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 14 Mawrth 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

# 57(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Mae'r Llywydd wedi cael gwybod, o dan Reol Sefydlog 12.58, y bydd Arweinydd y Tŷ yn ateb cwestiynau ar ran Prif Weinidog Cymru.

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### Cwestiwn Brys 1

**I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant:**

**Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am effeithiau iechyd posibl glofa glo brig Ffos-y-Fran, yn dilyn y cyhoeddiad yr wythnos diwethaf gan rapporteur arbennig y Cenhedloedd Unedig ar wastraff a sylweddau peryglus?

### Cwestiwn Brys 2

**I'r Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes:**

**Lee Waters (Llanelli):**_A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y methiant i benodi cynrychiolydd o Gymru ar fwrdd y BBC?

## Cwestiwn Brys 3

I’r Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith:

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddyfodol hirdymor y cyswllt awyr rhwng y gogledd a'r de a gaiff gymorthdaliadau, yn sgil y newyddion bod Citywing wedi cael ei ddiddymu?

## Cwestiwn Brys 4

I Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon:

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd)?:** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr achos o danseilio diogelwch data a effeithiodd ar staff y GIG sy'n defnyddio mesuryddion dognau o ymbelydredd?

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Bil Diddymu’r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

(60 munud)

## 4 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg – y ffordd ymlaen

(45 munud)

## 5 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Economi Ddigidol

(30 munud)

**NDM6254** Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno mai Senedd y DU ddylai ystyried y darpariaethau ym Mil yr Economi Ddigidol sy'n ymwneud â rhannu data, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Tachwedd 2016 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i). Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mawrth 2017 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

**Dogfennau Ategol**
Bil yr Economi Ddigidol
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol
Adroddiad Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

## 6 Dadl: Gwastraff Trefol ac Ailgylchu

(60 munud)

**NDM6255** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cytuno bod Cymru ar y blaen o safbwynt ailgylchu gwastraff trefol ac yn cefnogi'r bwriad sy'n golygu:

a) creu rhagor o fentrau er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl o ran datblygu cynaliadwy ac amcanion Symud Cymru Ymlaen

b) mai Cymru fydd y wlad orau yn y byd am ailgylchu.

**Dogfen Ategol**
Symud Cymru Ymlaen

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** David Rowlands (Dwyrain De Cymru)

Dileu is-bwynt a)

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliant 2 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu at ddiwedd is-bwynt a):

'fel cynllun ad-dalu blaendal ar gyfer plastig, gwydr a chaniau a gwahardd pecynnau polystyren.'

**Gwelliant 3.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'sicrhau canlyniadau datblygu cynaliadwy drwy economi fwy gylchol yn seiliedig ar ddefnydd arloesol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.'

'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'

**Gwelliant 4.** David Rowlands (Dwyrain De Cymru)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi â phryder bod cyfraddau ailgylchu yn amrywio'n sylweddol ar draws ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru, yn rhannol oherwydd gwahaniaethau mewn cynlluniau ailgylchu a chasglu gwastraff a ddefnyddir ym mhob ardal awdurdod lleol;

Yn gresynu bod 36,000 o achosion o dipio anghyfreithlon wedi'u cofnodi yng Nghymru yn 2015/16, gyda chostau o dros £2.1 miliwn i awdurdodau lleol eu clirio;

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod awdurdodau lleol yn casglu gwastraff gweddilliol cartrefi bob pythefnos fan lleiaf, er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, ac atal tipio anghyfreithlon.

**Gwelliant 5.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Fel mai Cymru fydd y wlad ailgylchu orau yn y byd, mae angen i awdurdodau lleol fabwysiadu arfer gorau er mwyn codi cyfraddau ailgylchu, a dysgu gan awdurdodau fel Ceredigion, lle y cafodd 68.1 y cant o wastraff trefol ei ailgylchu yn 2015/16.

## 7 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 15 Mawrth 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 9 Mawrth 2017 i'w hateb ar 14 Mawrth 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1.** **Nick Ramsay (Mynwy):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth sydd ar gael i fusnesau yr effeithiwyd arnynt gan yr ailbrisio ardrethi busnes? OAQ(5)497(FM)

**2.** **Huw Irranca–Davies (Ogwr):** Pa ystyriaeth y mae'r Prif Weinidog wedi'i rhoi i flaenoriaethu effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi fel rhan o bolisi seilwaith cenedlaethol yng Nghymru? OAQ(5)0504(FM)

**3.** **Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Prif Weinidog ymrwymo i gymryd camau i sicrhau cydraddoldeb o ran lefel buddsoddiad y llywodraeth ym mhob rhan o Gymru? OAQ(5)0506(FM)

**4.** **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth ar gyfer pobl ar y sbectrwm awtistiaeth yng Nghymru? OAQ(5)0509(FM)**W**

**5.** **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen waith Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru rhwng nawr a phan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd? OAQ(5)0501(FM)

**6.** **Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am addysg ôl-16 yng Nghymru? OAQ(5)0503(FM)

**7.** **David Melding (Canol De Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi prosiectau cyfranddaliadau cymunedol sy'n hyrwyddo mentrau ynni gwyrdd? OAQ(5)0500(FM)

**8.** **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyletswyddau Swyddogion Traffig yng ngogledd Cymru? OAQ(5)0508(FM)**W**

**9.** **Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gwrdd â Phrif Weinidog yr Alban i drafod y berthynas â'r Undeb Ewropeaidd? OAQ(5)0496(FM)**W**

**10.** **Gareth Bennett (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â'r diwydiant gwasanaethau ariannol i sicrhau buddsoddiad a swyddi yng Nghanol De Cymru? OAQ(5)0507(FM)

**11.** **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa sectorau diwydiant yr ymwelodd â hwy ar ei ymweliad diweddar â'r Unol Daleithiau? OAQ(5)0502(FM)

**12.** **Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau ysbytai i bobl gogledd Powys? OAQ(5)0498(FM)

**13.** **Hefin David (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu maint y stoc tai fforddiadwy yng Nghaerffili? OAQ(5)0505(FM)**R**

**14.** **Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei gynnig ar gyfer llywodraethu marchnad fewnol y DU yn y dyfodol? OAQ(5)0499(FM)

**15.** **Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o berfformiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ers ei roi o dan fesurau arbennig? OAQ(5)0510(FM)